



## Cyngor Cymuned Pennal Council

01654791235/07908654730

Gogarth Hall Farm  
Pennal,  
Machynlleth  
SY209LB

COFNODION 02-03-2022

Ymddiheuriad gan Dewi Owen

Cofnodion yn gywir Ken Griffiths William Rees

Materion yn codi

Cofnodion wedi eu cymeradwyo yn gywir gan Ken Griffiths a William Rees

Cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd a Dewi Owen a Kenneth Griffiths

Cafwyd adroddiad gan Keneth Griffiths Derbyniwyd yr argymhellion gan y swyddog Alun Osbourne Williams bod angen peintio y toiledau , gwneud gwaith trydan yno a gwaith plymio a newid drysau argymhellion cadarnhaol iawn edrychwn ymlaen i weld y gwaith yn cychwyn yn fuan.

Cylch y Marian aros i benodi dyddiad i ddadorchuddio y cylch.

Coeden ger Tai newyddion ar y Pownd wedi cael ei thorri diolchwyd ir cynghorwyr a aeth ati i wneud y gwaith. yn wirfoddol

Ffordd A493 deallwyd bod y swyddog sydd yn gofalu ar ôl y ffyrdd gan Cyngor Gwynedd yn sâl a dim yn ei swydd felly ddim yn medru ymweld ar A493 i edrych ar y difrod ir ffordd yn ddiweddar rhwng Marchlyn ag Esgairgoch.

Hysbyseb am glerc Newydd yn y Blewyn Glas derbyniwyd anfoneb o £10 00. Ni chafwyd ymateb eto cytunwyd i'w dalu.

PRESEPT roedd yn rhaid ail edrych ar y praesept I gyfiawnhau gwariant Newydd.

Cynigiwyd gan James Brunton £8000.300 ag eiliwyd gan Aled Rees roedd pawb yn gytûn.

Ond fe edrychwyd eto ar y Gyllideb i 22-23 ac fe fydd yn rhaid ei chodi eto flwyddyn nesa yn ofalus.

Menter y Glan

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd a deallwyd nawr bod Menter y Glan wedi ei registro a bod gwaith mawr eto I gael cyfri banc wedi ei agor, bydd mwy o wybodaeth yn y pwyllgor nesa.

## Cyngor Cymuned Pennal Council



Fe fydd Etholiad ym Mis Mai. Ni fydd Pwyllgor ym mis Ebrill. Felly maer clerch yn mynd i helpu dros y cyfnod yma.

Prif Ffyrdd

Angen ir Cyngor edrych ar y lli syn croesi Ffordd A493 ger rhif 1 Maesteg tuag at TY Gwyn maer gylfat wedi cau ac yn gorlifo mae angen gwybodaeth pwy sydd yn gyfrifol i ddatrys y broblem

.Fynwent y Plwy angen tacluso yr ardd Goffa diolchwyd i Kenneth Griffiths am wneud hyn.

Mynwent yr Eglwys

Mae trafodaethau ar Eglwys ar Cyngor a r gofal dros y fynwent yn dal I barhau cawn fwy o wybodaeth yn y Pwyllgor nesa ond .dal i aros am ymateb maer cyngor o Esgobaeth Bangor

Aelodaeth Un Llais Cymru. Gan fod y mudiad mor ddefnyddiol ir Cyngor Cynigiwyd gan Aled Rees ag eiliwyd gan James Brunton, cytunwyd i dalu tal aelodaeth o £88 punt

Coeden Nadolig

Penderfynwyd bod rhaid tynnu y goeden a cael coeden arall i sefyll ar y Marian .

Mygiau i goffai Jiwbilí y Frenhines

Fe fydd y cadeirydd yn cysylltu ar Brifathrawes Mrs Helen Jones i drafod y mater